Eisteddfod Calan Mai Betws yn Rhos 2022

Do mi wnaethom fentro ac r'oeddem ar y cyfan yn hapus. Roedd safon yn uchel iawn ond braidd yn siomedig oeddem hefo'r nifer o gystadleuwyr, yn enwedig yn yr oedran Bl. 5 a 6 a Bl. 7-9.

Enillodd Beatrice Roberts y gwpan am y cystadleuwr gyda nifer mwyaf o farciau yn adran y plant i fyny i Blwyddyn 5 a 6. Lea Mererid Roberts enillodd y tlws am ddatganiad ar y piano. Gwion Churchill enillodd y gwpan am y llawysgrif gorau.

Yn yr adran Rhyddiaith a Barddoniaeth, Gruff Owen fu'n llwyddianus am stori ar y testun "Campio", Lleucu Haf Thomas Aberteifi ar stori ddychmygol oedran bl.7-9, Mrs Megan Richards enillodd ar y delyneg, Alan Iwi ar yr englyn a Linda Rhys (Llangernyw) ar y limerig.